Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygu monitro blynyddol ar:

# Ysgol Craig y Parc

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Mae’n ofynnol i ymweliadau monitro blynyddol Estyn ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol adrodd ar b’un a yw rheoliadau safonau cofrestru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni, a lle nad ydynt yn cael eu bodloni, beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau ar gyfer yr ymweliad monitro hwn i’w gweld yn y dogfennau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llawlyfr Gwybodaeth a Chofrestru Ysgolion*, Ebrill 2004; a
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 37/94: *Ysgolion annibynnol sy’n derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig*:
    - paragraffau 1-8: caniatáu/dileu cymeradwyaeth;
    - paragraff 42: newidiadau i gymeriad, rheolaeth neu ofalaeth ar yr ysgol; a
    - 37/94 paragraff 43: gwahaniaethau sylweddol o’r nifer a gymeradwywyd.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2014**

## Cyd-destun

Ysgol annibynnol arbennig breswyl a dyddiol sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 19 oed yw Ysgol Craig y Parc. Mae'r ysgol wedi cael ei chymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ysgol ar gyfer derbyn disgyblion sydd â datganiadau o angen addysgol arbennig sydd ag anawsterau corfforol cymhleth ac anawsterau dysgu cysylltiedig.

Perchennog yr ysgol yw elusen Scope sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc ac oedolion ag anghenion cymorth cymhleth. Caiff Scope ei reoli gan fwrdd o ymddiriedolwyr ac mae gan yr ysgol gorff llywodraethol sy'n goruchwylio perfformiad yr ysgol.

Ym Medi 2013, gadawodd y pennaeth blaenorol yr ysgol i fynd i swydd arall. O ganlyniad, mae'r perchennog wedi aildrefnu rheolwyr yr ysgol ac wedi creu swydd newydd pennaeth gweithredol. Mae'r pennaeth gweithredol yn goruchwylio gwaith tair o ysgolion Scope a choleg ledled y DU erbyn hyn. Dechreuodd ar ei swydd ar ddechrau Tachwedd 2013. Mae'r is-bennaeth, a benodwyd yn Awst 2013, yn gyfrifol am reoli'r ysgol o ddydd i ddydd. Fe'i cyflogwyd yn athrawes yn yr ysgol am sawl blwyddyn cyn hyn. Mae'r perchennog yn darparu ystod o gymorth defnyddiol, er enghraifft mewn personél a chyllid.

Mae'r ysgol wedi'i threfnu yn wyth grŵp dosbarth sy'n cynnwys rhwng tri a saith dysgwr. Mae pedwar dosbarth yn dilyn dull addysg symbylol ac mae dau ddosbarth yn darparu cwricwlwm echddygol synhwyraidd.

Mae'r athro allymestyn yn yr ysgol yn cynorthwyo disgyblion sy'n mynychu ysgolion prif ffrwd lleol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau'r ysgol:**

- mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac maent yn cyflawni safonau da yn unol â'u galluoedd;
- mae disgyblion yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol i gefnogi eu dysgu ac mae hyn yn gwella eu gallu i gyfathrebu a chymryd rhan yn y gwersi;
- mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn ymgysylltu'n dda yn eu gwersi;
- mae athrawon yn cynllunio gwersi'n dda i fodloni anghenion dysgu unigol ac amrywiol iawn y disgyblion;
- mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn darparu manylion priodol ac maent yn cynnwys strategaethau buddiol i helpu athrawon â'u cynllunio;

- mae athrawon yn defnyddio dull amlsynhwyraidd yn effeithiol ac yn gwneud defnydd da o ystod briodol o adnoddau;
- lle nodir disgyblion ag anghenion perthnasol, mae'r ysgol yn cynnig rhaglen addysg symbylol arbenigol sydd o fudd i'w dysgu ac yn eu hannog i fyfyrio ar eu cynnydd;
- mae gwaith tîm da rhwng staff mewn gwersi; ac
- fe gaiff rhai disgyblion gyfleoedd priodol i ddilyn agweddau ar y cwricwlwm ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y prif ffrwd trwy leoliadau ysgol deuol.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- ers yr arolygiad monitro blynyddol diwethaf, gwnaed newidiadau sylweddol i strwythur rheoli'r ysgol. Nod y pennaeth gweithredol yw cael trosolwg strategol o'r ysgol a chynorthwyo'r is-bennaeth yn ei rôl fel y rheolwr o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y trefniadau. Megis dechrau sefydlu eu rolau newydd a phennu llinellau atebolrwydd y mae'r rheolwyr hyn;
- ers dyrchafu'r is-bennaeth i'w rôl newydd, nid oes gan yr ysgol ddirprwy bennaeth i ddarparu gwasanaeth llanw ffurfiol yn ei habsenoldeb;
- mae gan yr ysgol adroddiad hunanarfarnu a chynllun gwella ysgol a luniwyd gan y pennaeth blaenorol. Fodd bynnag, efallai nad yw'r dogfennau hyn yn briodol mwyach oherwydd gallai'r rheolwyr newydd nodi blaenoriaethau gwahanol i fynd â'r ysgol ymlaen;
- mae'r ysgol yn cadw cofnod o bryderon a godwyd gan staff, neu bobl eraill, nad ydynt yn cael eu codi fel cwynion ffurfiol. Mae hyn yn arfer dda. Mae'r cofnod yn amlinellu natur y pryderon a'r modd yr ymdriniwyd â nhw. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion bob amser yn darparu gwybodaeth ddigon manwl. Er enghraifft, nid yw'n glir pwy sydd wedi delio â phob mater. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i nodi unrhyw batrymau arwyddocaol mewn ymddygiad;
- nid yw'r ysgol wedi gallu gwneud defnydd llawn o adeiladau'r ysgol flaenorol ers o leiaf dwy flynedd. Mae oedi â chaniatâd cynllunio adeiladau rhestredig a'r rheoliadau tân ynghylch ailddatblygu'r adeiladau hynny. Defnydd cyfyngedig yn unig y gall yr ysgol ei wneud o'r adnodd hwn; ac
- mae Scope wrthi'n diweddaru prosbectws yr ysgol ar hyn o bryd a'r wybodaeth y mae'n trefnu ei bod ar gael i rieni, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol o dan Safon 6 y rheoliadau. Nid yw rhai o bolisïau eraill yr ysgol wedi cael eu diwygio i gyfeirio at y rheolwyr newydd.

## Argymhellion

**A1** Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

**A2** Sefydlu llinellau cyfrifoldeb clir ar gyfer y tîm rheoli newydd a datblygu strwythurau rheoli effeithiol i sicrhau bod yr ysgol yn rhedeg yn esmwyth

**A3** Adolygu'r adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun gwella ysgol presennol er mwyn nodi blaenoriaethau presennol i symud yr ysgol ymlaen

**A4** Sicrhau bod cofnodion yr ysgol o unrhyw bryderon yr aethpwyd i'r afael â nhw yn cynnwys digon o fanylion

**A5** Gydag amser, mae angen adolygu dogfennau polisi'r ysgol i sicrhau bod yr holl fanylion yn gyfoes

**A6** Anelu at ddatrys y mater ynghylch ailddatblygu'r ysgol flaenorol er mwyn gwneud defnydd gwell o'r adeiladau

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn blaenorol ymweliad neu adroddiad arolygu

**Argymhelliad 1:** Parhau i gynyddu'r cyfleoedd priodol sydd ar gael i ddisgyblion mwy abl fynychu eu hysgolion a'u colegau lleol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae aelod dynodedig o staff sy'n goruchwylio lleoli disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd. Mae aelod arall o staff yn darparu cysylltiadau gyda cholegau lleol ac mae'n goruchwylio trefniadau pontio. Mae saith disgybl yn mynychu eu hysgol leol am rhwng 0.5 a 3 diwrnod yr wythnos. Mae pedwar disgybl yn mynychu colegau addysg lleol am ddiwrnod yr wythnos. Mae'r timau o amgylch y plentyn yn cysylltu â'r ysgolion a'r colegau i ddatblygu profiadau cadarnhaol a chynhyrchiol.

**Argymhelliad 2:** Cymryd camau i gryfhau trefniadau uwch reoli er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn rhedeg yn esmwyth ar bob adeg, er enghraifft unrhyw adeg y mae'r pennaeth yn absennol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Newidiwyd rheolaeth yr ysgol yn sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf. Nod y pennaeth gweithredol a benodwyd yn ddiweddar yw datblygu trosolwg strategol o'r ysgol ac mae'n bwriadu darparu arweiniad a chymorth ar gyfer yr is-bennaeth a rheolwyr eraill. Mae strwythur uwch dîm rheoli newydd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae'r is-bennaeth yn adnabod yr ysgol a'i harferion o ddydd i ddydd yn dda.

Mae gan reolwyr gynlluniau i ddatblygu systemau'r ysgol, er enghraifft mewn perthynas â rheoli perfformiad, arsylwi gwersi a chynllunio gweithredu. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu'r rhain.

**Argymhelliad 3:** Adolygu'r polisi ar gyfer ataliad corfforol a sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ym 2013, trefnodd rheolwyr fod grŵp o staff ysgol a staff preswyl yn mynychu cwrs hyfforddi mewn defnyddio ymyrraeth atal argyfwng yn briodol. Mae'r ysgol wedi trefnu i ddau aelod o staff fynychu cwrs yn Rhagfyr 2013 i fod yn hyfforddwyr er mwyn darparu hyfforddiant mewnol yn y dyfodol.

**Argymhelliad 4:** Adolygu'r polisi ar gyfer amddiffyn plant i gynnwys y weithdrefn os gwneir honiad yn erbyn y pennaeth neu aelod o staff

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Adolygodd yr ysgol y polisi ar gyfer amddiffyn plant ym Medi 2013. Mae bellach yn cynnwys arweiniad ar weithdrefnau os gwneir honiad yn erbyn aelod o staff.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael i rieni yn cael ei diweddaru i gynnwys:

- manylion am bolisi'r ysgol ar, a threfniadau ar gyfer derbyniadau, disgyblaeth a gwaharddiadau; [6(2e)] a
- nifer y staff a gyflogir yn yr ysgol, gan gynnwys staff dros dro, a chrynodeb o'u cymwysterau.[6(2k)]

**Safon 7: Y dull o drafod cwynion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol sicrhau:

- bod y weithdrefn gwyno yn cynnig cyfle i wneud cwyn ffurfiol yn ysgrifenedig os nad yw rhieni yn fodlon â'r ymateb i gŵyn anffurfiol; [7e] a
- bod y weithdrefn yn cynnwys y datganiad bod cofnodion ysgrifenedig o gwynion yn nodi p'un a gawsant eu datrys yn y cam cychwynnol, neu p'un a aethant ymlaen i wrandawiad panel. [7j]

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd.  I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Craig y Parc |
| **Rhif yr ysgol** | 681/6087 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 11 a 12 Tachwedd 2013 |
| **Perchennog** | Scope Cymru |
| **Staff** | 6 athro amser llawn;<br>3 athro rhan-amser;<br>24 cynorthwyydd cymorth dysgu amser llawn;<br>10 cynorthwyydd cymorth dysgu rhan-amser;<br>1 therapydd amser llawn;<br>5 therapydd rhan-amser;<br>2 dechnegydd therapi amser llawn;<br>4 technegydd therapi rhan-amser;<br>1 eiriolwr disgyblion rhan-amser;<br>33 staff gofal; a<br>5 nyrs. |
| **Nifer y disgyblion** | 45 (23 o ferched a 22 o fechgyn) |
| **Darpariaeth** | Addysg ddydd am 38 neu 41 wythnos y flwyddyn.<br>Preswyl (38/41/52 wythnos)<br>Gofal seibiant |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Mae gan bob un o'r disgyblion anghenion cymhleth yn gysylltiedig ag effaith parlys yr ymennydd ar eu medrau gwybyddol, gweledol, eu medrau echddygol manwl a bras, eu medrau iaith a chyfathrebu. |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Ionawr 2009 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Tachwedd 2012 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Awst 2012 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Rosemary Lait AEM |
| **Arolygydd Tîm** | Anne Dackevych AY |